Deunyddiau darllen sampl

Fersiwn y dysgwyr



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cŵn sy'n helpu pobl

Mae rhai cŵn yn cael eu hyfforddi i helpu pobl. Mae'n costio tua £50,000 i hyfforddi un ci. Mae'r ci'n dechrau dysgu yn ifanc iawn. Pan fydd y ci'n barod mae'n mynd i fyw gyda'r person sydd angen help. Mae'r ci'n mwynhau helpu'r person ac mae'r perchennog yn dibynnu ar y ci yn fawr iawn.

Cŵn clywed

Mae'r ci clywed yn cyffwrdd y person â'i bawen pan fydd yn clywed sŵn. Bob bore mae'r ci'n clywed y cloc larwm ac yn deffro'r person. Os bydd tân yn y tŷ a'r ci'n clywed larwm mwg, mae'n gorwedd o flaen y person i ddangos bod perygl. Pan fydd cloch y drws yn canu, mae'r ci'n arwain ei berchennog i'r drws.

Cŵn tywys

Mae cŵn tywys yn helpu pobl sy'n methu gweld o gwbl, neu bobl sy'n cael problem gweld, i deithio'n ddiogel. Mae'r cŵn yn dysgu sut i arwain y person o gwmpas pethau. Mae'r ci'n cerdded yn dawel wrth ochr y person. Yn y dref, mae'r ci'n aros ar ochr y ffordd tan y bydd hi'n ddiogel i groesi.

Stori wir

Ci John Fletcher, 34 oed, ydy Tammy. Mae hi'n dair oed. Mae Tammy a John yn byw yn America. Mae clefyd siwgr ar John. Mae Tammy yn gwybod pan fydd lefel siwgr John yn isel. Mae Tammy yn gwneud sŵn ac yn procio John. Rhaid i John wneud prawf wedyn i weld beth sy'n bod ar lefel y siwgr. Ond mae Tammy bob amser yn iawn.

Ci clyfar iawn ydy Tammy. Un diwrnod, roedd John yn sâl iawn. Roedd o'n gorwedd ar y llawr. Roedd ei lygaid ar gau a doedd o ddim yn gallu siarad. Felly, dyma Tammy yn defnyddio'r ffôn i gael help. Ond sut? Dydy ci ddim yn gallu ffonio! Roedd John wedi dysgu Tammy i wasgu 911 gyda'i thrwyn. Dyna'r rhif mae'n rhaid ei ffonio er mwyn galw ambiwlans yn America. Roedd Tammy wedi achub bywyd John ac felly cafodd hi wobr arbennig. Gwobr am ddefnyddio ffôn symudol i achub bywyd neu helpu person ydy hi. A pherchennog balch iawn ydy John!



1 Darllenwch y paragraff cyntaf eto. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Mae'n costio llai na £50,000 i hyfforddi un ci.		
Mae'n bosibl hyfforddi hen gi i wneud y gwaith.		
Mae'r ci'n byw gyda'r person sy'n ei hyfforddi.		
Mae'r ci sy'n helpu yn bwysig iawn i'r perchennog.		

1
2m

2 Edrychwch ar y testun yn y bocs.

Tanlinellwch un gair sy'n dangos beth mae'r ci clywed yn ei wneud **yn y bore** i helpu ei berchennog.

> Mae'r ci clywed yn cyffwrdd y person â'i bawen pan fydd yn clywed sŵn.
> Bob bore mae'r ci'n clywed y cloc larwm ac yn deffro'r person.

2
1m

3a Beth ydy gwaith cŵn tywys?

Ticiwch **un**.

- helpu pobl sy ddim yn gallu cerdded ☐
- helpu pobl sy ddim yn gallu deall ☐
- helpu pobl sy ddim yn gallu clywed ☐
- helpu pobl sy ddim yn gallu gweld ☐

3a
1m

3b Mae'r ci clywed yn helpu ei berchennog i wneud y canlynol:

Ticiwch **2**.

- croesi'r stryd ☐
- deffro yn y bore ☐
- ateb y drws ☐
- symud o gwmpas ☐
- gwisgo yn y bore ☐

3b
1m

trosodd


4 Darllenwch *Cŵn tywys* eto.
Dewiswch a **chopïwch un** gair i ddisgrifio beth mae'r ci tywys yn ei wneud cyn croesi'r ffordd.

4
1m

_____

5 Tynnwch **4** llinell arall i ddangos sut mae'r ci tywys a'r ci clywed yn helpu'r perchennog.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.



5
2m

6 Dewiswch y gair/geiriau gorau i gyd-fynd â'r darn darllen drwy roi tic wrth eich dewis bob tro.

a) Mae'r ci tywys yn cerdded

yn gyflym ☐ **yn dawel** ☐ **yn ddiflas** ☐ **yn ddoniol** ☐
wrth ochr ei berchennog.

6a
3m

b) Mae'r ci clywed yn

cysgu ☐ **cyfarth** ☐ **chwarae** ☐ **gorwedd** ☐
o flaen y perchennog pan fydd y larwm tân yn canu.

6b
3m

7 Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1-5.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Tammy yn ennill gwobr arbennig.	☐
John yn gorwedd ar y llawr.	☐
John yn dysgu Tammy sut i wasgu 911.	1
Tammy yn achub bywyd John.	☐
Tammy yn galw ambiwlans.	☐

7
1m

Diwedd y deunyddiau sampl.

Diolchiadau

Addaswyd o wybodaeth a geir ar wefan *Pet and Vet* ar http://petandvet.net.nz/690

© Hawlfraint y Goron 2013